SIR GAERFYRDDIN


# Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## Hydref-Rhagfyr 2023

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?





I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Biodiversity@sirgar.gov.uk



## Gwyfyn llenni crychlyd

Mae gwyfyn llenni crychlyd (*Phlogophora meticulosa*) yn hedfan o fis Mai hyd fis Hydref. Mae hefyd yn rhywogaeth sy'n mudo ac yn hedfan drosodd o'r cyfandir yn ystod cyfnodau o dywydd sefydlog. Mae'r sbesimen hwn yn debygol o fod o ail nythaid. Mae ei farciau brown-pinc a'i adenydd sgolpiog yn rhoi cuddliw ardderchog iddo fel deilen farw wedi cyrlio. Fe'i ceir yn aml ymhlith hen ddail, mae'n plygu ei adenydd yn ôl i bwysleisio ei guddliw. Mae'r oedolion yn bwydo ar flodau corsen cyrs a gweiriau ac yn bwyta dail amrywiaeth eang o wahanol blanhigion gan gynnwys danadl poethion, triaglog goch, dail tafol, mieri, cyll a derw.



## Llifogydd

Yma mae Afon Tywi wedi gorlifo yn Nryslwyn ar ôl i law trwm beri iddi lifo dros ei glannau.

Pan fydd glaw yn disgyn rywle yn 'nalgylch' Afon Tywi (y rhan o dir sy'n casglu'r holl ddŵr sy'n diweddu yn yr afon), mae'r dŵr yn symud i lawr y rhiw mewn nentydd ac afonydd i ymuno ag afon Tywi. Gall llawer iawn gael ei ddal yn ôl gan briddoedd, sy'n cynnal llystyfiant.

Mae Afon Tywi ar ôl Llanymddyfri yn ymdroelli ar orlifdir llydan, byw. Mae llifogydd afonydd yn broses naturiol, sy'n hanfodol i'r ffordd y mae Afon Tywi wedi datblygu ei ffurf droellog, gan erydu'n araf ac ailadeiladu llwybr sianel droellog gydag ystumllynnoedd, terasau afonydd a 'heigiau' gro.

Gall llifogydd, sy'n hanfodol i iechyd a strwythur ffrydiau, fod yn ddinistriol i gartrefi, busnesau a seilwaith. Mae Rheoli llifogydd yn naturiol yn gweithio gyda byd natur i leihau'r perygl o lifogydd i gymunedau. Mae'n defnyddio technegau amrywiol i adfer neu ddynwared swyddogaethau naturiol afonydd, gorlifdiroedd a'r dalgylch ehangach. Ei nod yw storio dŵr yn y dalgylch ac arafu cyflymder y dŵr sy'n llifo i afonydd, er mwyn helpu i leihau llifogydd ymhellach i lawr yr afon.




## Gwrychoedd llawn rhywogaethau

Mae'n debyg bod gan Sir Gaerfyrddin un o'r rhwydweithiau mwyaf cymhleth o wrychoedd yn unrhyw ran o Gymru.

Crëwyd gwrychoedd i ddiffinio eu tir, creu rhwystrau i dda byw a chynnig cysgod. Mae llawer o wrychoedd sydd wedi goroesi yn ganrifoedd oed ac, ar draws y sir, maent yn dal i gael eu cynnal i ddibenion amaethyddol.

Fel nodweddion hirsefydlog yn y dirwedd, maent yn aml yn darparu llwybr rhwng cynefinoedd eraill a gallant fod yn hynod gyfoethog o ran y bywyd gwyllt y maent yn ei gynnal. Ledled y DU, mae mwy na 600 o rywogaethau o blanhigion, 1500 o bryfed, 65 o adar ac 20 o famaliaid wedi cael eu cofnodi yn defnyddio gwrychoedd.

Gallech ddweud eu bod yn ffurfio un o'n gwarchodfeydd natur mwyaf.







## Chwydd Tafod Gwern

Pathogen ffwngaidd yw *Taphrina alni* sy'n achosi chwydd tafod gwern, ystumiad cemegol o genawon cyll benywaidd y wernen. Mae chwydd tafod gwern yn dyfiant rhyfedd ond amlwg, tebyg i dafod, ar y cenawon, yn wyrdd i ddechrau ac yn troi'n felyn, oren, coch neu borffor yn ddiweddarach, ac yn frown neu ddu yn y pen draw. Ar un adeg roeddent yn brin yn y DU ond mae tafod gwern yn lledaenu ac mae bellach yn eithaf cyffredin.

Gall conau'r wernen gario un chwydd neu sawl un, fel arfer yn dod allan o'r un man ar y cenau. Mae'r chwydd yn aeddfedu ar y cenawon ac yn y diwedd yn rhyddhau ei sborau i'r gwynt i heintio coed cyfagos.

## Ffyngau Ffantastig

Ni fydd Diwrnod Ffyngau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru byth yn siomi, a doedd eleni ddim yn wahanol. Bu arbenigwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd yn mwynhau crwydro o gwmpas y Gerddi a chanfod rhywogaethau sy'n dangos yr amrywiaeth a geir yn y byd ffwngaidd. Mae gan **glustbig y conwydd** (*Auriscalpium vulgare*), sydd bron bob amser yn tyfu o gonau pinwydd, gap siâp aren nodedig wedi'i orchuddio â blew.

Mwy cyffredin yw'r **ffwng cwrel cribog** (*Clavulina coralloides*) a geir yn aml mewn coetiroedd, gyda blaenau pigfain i'w ganghennau.

Mae ecosystemau coetir yn llawer mwy na'u coed yn unig: maent yn fydoedd cymhleth, gyda ffyngau'n chwarae rhan hanfodol ynddynt. Ffyngau yw'r prif gyfrwng dadelfennu ac maent hefyd yn darparu rhwydwaith cyflenwi a chyfathrebu tanddaearol helaeth. Mae llawer mwy i'w ddysgu, ond tra bo gwyddoniaeth yn dysgu mwy am ba mor hanfodol yw ffyngau, gallwn ddal i gael ein syfrdanu gan amrywiaeth y rhywogaethau o'n cwmpas drwy edrych yn fanylach pan fyddwn allan.




## Titw Cynffon-hir

Mae'r titw cynffon-hir (*Aegithalos caudatus*) yn aderyn bychan deniadol. Mae ei gynffon yn hir - yn hirach na'i gorff mewn gwirionedd!
Maent yn adar cymdeithasol, ac fel arfer sylwir arnynt mewn heidiau bach, cyffrous, yn crwydro drwy goedwigoedd a gwrychoedd yn chwilio am bryfaid a chorynnod, gan wneud galwad gyswllt nodweddiadol. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, i gadw'n gynnes gyda'r nos, maent yn closio at ei gilydd yn dynn i leihau colli gwres. Efallai y byddant yn defnyddio blychau nythu – felly efallai y byddai'n werth eu gadael i fyny dros y gaeaf os gwelwch yr aderyn hwn yn eich gardd



## Turwyr dail

Mae turwyr dail yn unrhyw un o rywogaethau niferus o bryfaid lle mae'r larfa yn byw y tu mewn i feinwe dail planhigyn ac yn ei bwyta. Maent yn olygfa gyffredin ar nifer o rywogaethau yn y sir. Dyma linellau nodedig turiwr dail mewn deilen efwr, rhywogaeth yn y genws *Phytomyza* o bryfaid dail fwy na thebyg.
Gellir gweld y llinellau hyn o fis Mai i fis Tachwedd. Mae'r larfa yn datblygu y tu mewn i ddail ei blanhigyn cynhaliol, gan wneud cloddfa wen amlwg. Bydd rhai turwyr dail yn troi'n chwilerod y tu mewn i'r ddeilen ac yn dod allan o wyneb y ddeilen yn y pen draw, tra bydd eraill yn gadael y ddeilen i droi'n chwilerod ar wyneb y ddeilen neu'n syrthio i'r llawr ac yn troi'n chwilerod yn y sarn neu'r pridd cyn dod allan fel oedolion.



## Helfa Blanhigion dros y Calan

Yng nghanol y gaeaf, mae gweld planhigyn mewn blodau yn olygfa hyfryd. Roedd y planhigyn Milddail (*Achillea millefolium*) hwn mewn blodau mewn mynwent leol.

Fel arfer mae'r blodau'n newid yn raddol o fod yn flodyn i hadlestr ac mae'r planhigyn yn parhau i fod yn ddeniadol ymhell i'r hydref. Dyma'r planhigyn mewn blodau ym mis Rhagfyr!

Beth am edrych yn fanylach yn eich ardal leol dros y Calan a gweld a oes unrhyw blanhigion mewn blodau? Efallai y cewch eich synnu.

Mae Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain yn cynnal Helfa Blanhigion dros y Calan rhwng 30 Rhagfyr 2023 a 2 Ionawr 2024.

Mae cofnodion o'r helfa hon yn cyfrannu at y ddealltwriaeth o sut mae planhigion gwyllt a rhai sy'n naturiol i'r dirwedd ledled Prydain ac Iwerddon yn ymateb i newidiadau ym mhatrymau tywydd yr hydref a'r gaeaf.

Mae'r Helfa hefyd yn esgus gwych dros fynd am dro gaeafol dros dymor yr Ŵyl.



## Seren Frau Gyffredin

Mae'r Seren Frau Gyffredin (*Ophiothrix fragilis*) yn perthyn i'r seren fôr a gellir dod o hyd iddi o amgylch ein harfordir mewn pyllau glan môr ac ar y môr mewn dyfnderoedd o 85m, a gellir eu canfod mewn cynulliadau dwys. *Maen* nhw'n frau, gan golli eu breichiau tenau os ydyn nhw'n cael eu haflonyddu neu eu bygwth.

Ar wely'r môr maen nhw'n codi eu coesau hir i gerrynt y dŵr i hidlo bwyd, gan ddal plancton a detritws.

Mae sêr brau yn cael eu bwyta gan sêr môr. Er mwyn osgoi cael eu bwyta, maen nhw'n cuddio ond hefyd maen nhw'n gallu canfod math o gemegyn a gynhyrchir gan sêr môr, eu hysglyfaethwyr, ac felly byddan nhw'n symud i ffwrdd.







## Creu gwely cyrs – rhowch amser iddo!

Yn 2010, ar ôl derbyn cyllid bu'n bosibl gwneud gwaith i wella yr hyn oedd ar y pryd i raddau helaeth yn lannau moel Llynnoedd Delta yn Llanelli ar gyfer bywyd gwyllt, gan gynnwys llygoden y dŵr brin (*Arvicola amphibius*), y canfuwyd arwyddion ohoni yno y flwyddyn honno.

Gosodwyd rholiau o risgl, wedi eu plannu ymlaen llaw, ar hyd y lan yn ystod y gaeaf. Nid oedd y buddion yn amlwg ar unwaith ac ni fu'r haf sych dilynol o gymorth, na'r merlod oedd yn pori'n anghyfreithlon ac yn bwyta'r tyfiant. Fodd bynnag, gydag amser, mae'r cynefin ymylol wedi datblygu i fod yn gynefin gwely cyrs ardderchog, sydd wedi ymledu ar hyd ymyl y llyn ac sydd, yn ogystal â darparu cynefin i lygod y dŵr, bellach yn gallu cynnal amrywiaeth o rywogaethau fel gwas y neidr ac adar fel bras cyrs a thelor cetti.





## Partneriaeth Natur Sir Gâr

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
WWBIC West Wales Biodiversity Information Centre Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
National Botanic Garden of Wales Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Coed Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Wildlife Trust of South & West Wales
Butterfly Conservation Wales Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
Llanelli Naturalists Naturiaethwyr Llanelli
amphibian and reptile conservation
Bat Conservation Trust
Clwb Adar Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire Bird Club
Plantlife
Carmarthenshire Meadows Group Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol The National Trust
Pori Natur a Threftadaeth
Bumblebee Conservation Trust
buglife
Mid Wales Red Squirrel Partnership Canolbarth Cymru Partneriaeth Gwiwerod Coch
WWT
Botanical Society of the British Isles
West Wales Rivers Trust Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru - caring for rivers, lakes and wetlands
Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru Initiative for Nature Conservation Cymru